NewsLine
Rhag 2020 Rhifyn 147
CAERPHILLY COUNTY BOROUGH COUNCIL
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CAERFFILI
www.caerffili.gov.uk

Ymunwch yn Nhrafodaeth Caerffili



Anogir trigolion i helpu i lunio dyfodol gwasanaethau'r Cyngor trwy gymryd rhan yn "Nhrafodaeth Caerffili"

Mae'r arolwg yn y rhifyn arbennig hwn o Newsline yn rhoi cyfle i bobl sy'n byw ac yn gweithio ym Mwrdeistref Sirol Caerffili i rannu eu profiadau o fywyd ar draws yr ardal; eu barn am wasanaethau cyhoeddus, ac awgrymiadau ar gyfer ble y gellid gwella pethau wrth i ni edrych i'r dyfodol.

Mae cymunedau a gwasanaethau cyhoeddus ledled y DU yn wynebu heriau sylweddol, oherwydd pandemig COVID, Brexit, newid yn yr hinsawdd a'r materion economaidd dilynol y mae'r heriau hyn, yn anochel, yn eu cyflwyno.

Er gwaethaf yr heriau hyn, fodd bynnag, mae cyfleoedd gwirioneddol hefyd. Wrth i ni wella o effaith COVID a mynd i'r afael â'r heriau eraill hyn, fel bwrdeistref sirol mae gennym ni gyfle unigryw i ail-lunio'r dyfodol yr ydym ni, fel cymuned, am gael ar gyfer ein hardal. Mae gennych chi, ein preswylwyr, rôl allweddol i'w chwarae yn hyn.

Dywedodd y Cynghorydd Philippa Marsden, Arweinydd y Cyngor, "Mae wedi bod yn wirioneddol ysbrydoledig gweld cynifer o gymunedau'n dod at ei gilydd yn ystod y pandemig COVID, gan gynnig cymorth a chefnogaeth i'w gilydd ac i'r rhai sydd mewn angen. Hyn yw ysbryd gwirioneddol 'Tîm Caerffili' ar waith; daethon ni oll at ein gilydd – gwasanaethau cyhoeddus, mudiadau gwirfoddol, grwpiau cymunedol a thrigolion fel ei gilydd - gyda phwrpas cyffredin. Bydd y dull partneriaeth parhaus hwn yn bwysig iawn wrth i ni edrych i'r dyfodol.

"Mae eich profiadau a'ch syniadau ar gyfer eich cymunedau, yn ogystal ag ar gyfer Bwrdeistref Sirol Caerffili'n gyffredinol, yn hanfodol i'n helpu i gynllunio ar gyfer y dyfodol, ac i lunio ein lle a'n gwasanaethau cyhoeddus er mwyn adlewyrchu anghenion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol ein trigolion."

Mae hefyd yn ofynnol i'r cyngor, yn ôl y gyfraith, bennu cyllideb gytbwys a lefel treth y cyngor bob blwyddyn, felly mae eich barn yn wirioneddol bwysig. Rydym am glywed gan gynifer o bobl ag sy'n bosibl. Anogwch eich ffrindiau, eich teulu a'ch cymdogion i gymryd rhan yn 'Nhrafodaeth Caerffili' drwy gwblhau'r arolwg hwn.









Y DYDDIAD CAU AR GYFER CYMRYD RHAN YN YR YMGYNGHORIAD HWN YW

Dydd Sul 3 Ionawr 2021

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg, ac mewn ieithoedd a fformatau eraill ar gais.
This document is available in Welsh, and in other languages and formats on request.

Am gyfle i ENNILL un o bum taleb siopa'r stryd fawr gwerth £50 -
Llenwch yr arolwg, a'i ddychwelyd i ni cyn y dyddiad cau, sef **3 Ionawr 2021**

Mae modd llenwi'r arolwg ar-lein: www.caerffili.gov.uk/trafodaethcaerffili
Os oes angen cymorth arnoch chi wrth lenwi'r arolwg, cysylltwch â ni: **ymgysylltiadcyhoeddus@caerffili.gov.uk**

Boddhad cyffredinol

1 **Gan ystyried popeth, pa mor fodlon neu anfodlon ydych chi gyda'r gwasanaeth cyffredinol a ddarparwyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili dros y 12 mis diwethaf?**

Bodlon iawn ☐ Bodlon ☐ Anfodlon ☐ Anfodlon iawn ☐ Ddim yn gwybod ☐

2 **Pa mor fodlon neu anfodlon ydych chi gyda'r canlynol:**

	Bodlon iawn	Bodlon	Anfodlon	Anfodlon iawn	Ddim yn gwybod
Casgliadau gwastraff / Ailgylchu					
Glanhau strydoedd a glanhau amgylcheddol					
Cludiant cyhoeddus					
Cynnal a chadw priffyrdd					
Parciau / Mannau agored					

3 **Beth ydych chi'n teimlo yw'r ffactor unigol mwyaf sy'n effeithio ar ymddangosiad eich cymdogaeth?**
Nodwch yma:

Llunio ein Lle – ymateb i'r pandemig COVID

Mae'n sicr bod y pandemig COVID-19 wedi effeithio arnom ni i gyd. Yr haf diwethaf, cyhoeddodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili ei strategaeth **"Tîm Caerffili - Yn Well Gyda'n Gilydd"**, a oedd yn darparu fframwaith ar gyfer newid yn y ffordd y bydd y Cyngor yn darparu gwasanaethau er mwyn diwallu anghenion ein cymunedau yn y dyfodol. Mae COVID-19 wedi cynnig her ychwanegol ac uniongyrchol, sydd wedi ysgogi'r Cyngor i gyflymu'r newid, a nodwyd yn flaenorol yn y strategaeth hon. Mae gan gymunedau Bwrdeistref Sirol Caerffili rôl allweddol i'w chwarae o ran cefnogi'r cyngor ac eraill wrth lunio ein lle a'r gwasanaethau y maent yn eu darparu, i adlewyrchu anghenion ein cymunedau.

Ein cymunedau a chithau fel unigolion yn ystod y pandemig

Mae'r pandemig COVID-19 wedi gweld dull partneriaeth gwirioneddol yn dod i'r amlwg - rhwng ein cymunedau a chyrff cyhoeddus gan gynnwys y Cyngor - gyda phawb yn cydweithio i wneud eu rhan er mwyn cyfrannu at les ein cymunedau. Mae gennym ni gyfle unigryw i gryfhau'r bartneriaeth hon ymhellach wrth symud ymlaen ac adeiladu etifeddiaeth gadarnhaol.

Ymateb y cyngor i'r pandemig COVID-19

Ers mis Mawrth 2020, oherwydd y pandemig COVID-19 parhaus, bu'n rhaid i'r Cyngor ganolbwyntio ei adnoddau ar ddarparu gwasanaethau hanfodol a diogelu trigolion sy'n agored i niwed: ■ Cyflwynwyd rhai gwasanaethau ychwanegol ■ Tynnu rhai gwasanaethau yn ôl, dros dro ■ Mae'r rhan fwyaf o wasanaethau yn parhau i gael eu darparu ond mewn ffordd wahanol

4 **Beth yw eich barn am ymateb Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili i'r pandemig COVID-19?**

Da iawn ☐ Da ☐ Gwael ☐ Gwael iawn ☐ Ddim yn gwybod ☐

5 **Yn ystod y pandemig COVID-19 parhaus, p'un o wasanaethau'r Cyngor canlynol a wnaethoch chi eu defnyddio? Beth yw eich barn am sut mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili wedi darparu'r gwasanaethau hyn yn ystod y pandemig?**

	Wedi eu defnyddio	Da iawn	Da	Gwael	Gwael iawn	Ddim yn gwybod
Gwasanaethau cwsmeriaid (cynnal y gwasanaeth ffôn ar bellter / darparu gwasanaethau ar-lein)						
Cyfathrebu (newyddion diweddaraf - y wefan, cyfryngau cymdeithasol ac ati)						
Cymorth i drigolion sy'n agored i niwed:						
■ Llythyr yn cynnig cymorth i drigolion drwy 'ymateb cymunedol' y Cyngor a gyflwynwyd i bob cartref						
■ Cynllun cyfaill ar gyfer siopa						
■ Darparu prydau ysgol am ddim						
■ Dosbarthu parseli bwyd						
■ Hybiau Gofal Plant						
Cymorth i fusnesau (e.e. prosesu grantiau, hyfforddiant / cyngor am ddim)						
Cynorthwyo canol trefi i agor yn ddiogel (e.e. cyflwyno rhwystrau/ marciau stryd i helpu i sicrhau bod pobl yn cadw at ymbellhau cymdeithasol)						
Cynorthwyo cymunedau (e.e. parhau i gasglu ailgylchu a gwastraff/ atgyweiriadau i'r priffyrdd)						

6 **Mae nifer o wasanaethau ac adeiladau wedi'u cau neu â mynediad cyfyngedig oherwydd COVID-19. Mae'r Cyngor wedi cynnig gwasanaethau mewn ffordd wahanol i alluogi trigolion i barhau i dderbyn y gwasanaeth hwnnw. Dywedwch a oeddech chi'n ymwybodol o wasanaethau'r Cyngor hyn a ad-drefnwyd, p'un a wnaethoch chi eu defnyddio yn ystod y pandemig neu yr hoffech eu defnyddio yn y dyfodol. Ticiwch bob un sy'n berthnasol** ✔

	Yn ymwybodol o'r gwasanaeth	Wedi'i ddefnyddio yn ystod y cyfnod cloi	Hoffwn ei ddefnyddio yn y dyfodol
Gwell cyfleuster ffôn er mwyn cael mynediad i'n tîm gwasanaethau cwsmeriaid			
Sesiynau ymarfer corff ar-lein wedi'u darparu gan staff canolfannau hamdden			
Gwasanaeth Cyswllt Llyfrgell / gwasanaeth archebu a chasglu o bell o lyfrgelloedd			
Cyflwyno 'sgyrsfot' ar-lein i wefan y cyngor			
Lleoliadau twristiaeth fel Llancaiach Fawr yn ail-lunio eu cynnig i gynnwys lleoliadau 'swyddfa' rhithwir			
Llinell gymorth ariannol er mwyn cynnig cyngor i breswylwyr sy'n pryderu am gyllid yn ystod y pandemig			

7 **Yn ystod pandemig COVID-19, pa mor bwysig ydoedd i chi gael cymorth gan y Cyngor, yn ogystal ag o sefydliadau cymunedol a gwirfoddol?**

Pwysig iawn ☐ Pwysig ☐ Nid yn bwysig ☐ Nid yn bwysig o gwbl ☐ Ddim yn gwybod ☐

Cymunedau'n chwarae eu rhan

Daeth cymunedau Bwrdeistref Sirol Caerffili ynghyd â mudiadau gwirfoddol a chyrff cyhoeddus, gan gynnwys y Cyngor, yn ystod y pandemig, i roi cymorth hanfodol i'w gilydd.

8 **I ba raddau ydych chi'n cytuno â'r datganiad canlynol? Mae fy nghymdogaeth yn fan lle mae pobl yn cyd-dynnu'n dda ac yn helpu ei gilydd.**

Cytuno'n gryf ☐ Cytuno ☐ Anghytuno ☐ Anghytuno'n gryf ☐ Ddim yn gwybod ☐

9 A wnaethoch chi neu'ch cymuned leol (ystâd, pentref neu dref) drefnu neu gyfrannu at unrhyw un o'r canlynol, neu dderbyn cymorth drwy unrhyw un ohonynt? Ticiwch bob un sy'n berthnasol ✔

	Wedi trefnu neu wedi sefydlu		Wedi cyfrannu at un cyfredol		Wedi derbyn cymorth drwy hyn	
Cynllun cymydog da – cymorth gyda phethau fel siopa a thasgau hanfodol eraill tra bod pobl yn hunan-amddiffyn	Fi		Fi		Fi	
	Fy nghymuned		Fy nghymuned		Fy nghymuned	
Banc Bwyd – cymorth i'r trigolion hynny sydd mewn angen	Fi		Fi		Fi	
	Fy nghymuned		Fy nghymuned		Fy nghymuned	
Grwpiau cymorth ar-lein – (e.e. grwpiau Facebook) i drigolion gadw mewn cysylltiad â'i gilydd / helpu ei gilydd	Fi		Fi		Fi	
	Fy nghymuned		Fy nghymuned		Fy nghymuned	
Arall, nodwch	Fi		Fi		Fi	
	Fy nghymuned		Fy nghymuned		Fy nghymuned	

10 A ydych chi'n teimlo y bu newid yn lefel ysbryd y gymuned o ganlyniad i'r pandemig COVID-19 yn eich ardal leol (ystâd, pentref, tref neu'r Fwrdeistref Sirol yn ei chyfanrwydd)?

Mwy o ysbryd cymunedol ☐ **Wedi aros yr un peth** ☐ **Llai o ysbryd cymunedol** ☐ **Ddim yn gwybod** ☐

Nodwch y rhesymau dros eich ateb:

Beth newidiodd i chi yn ystod COVID?

Mae'r pandemig COVID-19 wedi dod â llawer o newidiadau i'r ffordd rydyn ni'n byw ein bywydau, gan effeithio ar sut rydyn ni'n mynd i'r gwaith, mynd i'r ysgol, siopa, teithio a gweld ffrindiau, teulu a chymdogion. Mae gennym ni ddiddordeb i glywed rhagor am yr hyn sydd wedi newid i chi.

11 Faint ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â phob un o'r datganiadau canlynol?

	Cytuno'n gryf	Tueddu i gytuno	Tueddu i anghytuno	Anghytuno'n gryf	Ddim yn gwybod
Rydw i wedi dod i adnabod fy nghymdogion yn well					
Mae pobl wedi bod yn gwneud mwy i helpu ei gilydd					
Rydw i wedi bod yn gwneud mwy i helpu pobl eraill					
Rydw i wedi bod yn treulio rhagor o amser yn darganfod lleoedd yn agos i'm cartref					
Rydw i wedi bod yn cadw mewn cysylltiad â theulu a ffrindiau ar-lein					
Bu llai o enghreifftiau o ddigartrefedd					
Bues i allan yn yr awyr agored i wneud mwy o ymarfer corff					

12 Dywedwch a yw'r pandemig wedi effeithio ar eich sefyllfa o ran cyflogaeth:

Doeddwn i ddim yn gweithio cyn y cyfnod cloi	☐	Cefais fy rhoi ar ffyrlo	☐
Rwy'n hunangyflogedig ac wedi colli gwaith	☐	Rydw i wedi dechrau swydd newydd	☐
Cefais fy niswyddo	☐	Nid yw'r pandemig wedi effeithio ar fy nghyflogaeth	☐
Rhywbeth arall (nodwch)			

13	A oes gennych unrhyw sylwadau eraill i'w gwneud ynglŷn â sut rydyn ni wedi ymateb ar y cyd i'r pandemig COVID-19?

Blaenoriaethau ar gyfer adfer

Cynhaliwyd cynifer o wasanaethau'r Cyngor â phosibl drwy'r pandemig COVID-19, er efallai cafodd rhai eu darparu'n wahanol h.y. o bell.

14	Yn eich barn chi, pa wasanaethau sydd bwysicaf i'r Cyngor ganolbwyntio arnyn nhw wrth i ni ddod allan o'r pandemig?	Pwysig iawn	Pwysig	Nid yn bwysig	Nid yn bwysig o gwbl	Ddim yn gwybod
	Cymorth i bobl sy'n agored i niwed (parhau i gysylltu â'r rhai mwyaf agored i niwed yn ein cymunedau i sicrhau bod eu hanghenion yn cael eu diwallu)					
	Digartrefedd (sicrhau bod y rhai sy'n ddigartref yn cael eu cadw'n ddiogel wrth i gyfyngiadau'r cyfnod cloi cael eu lleddfu)					
	Tlodi bwyd (e.e. cefnogi a hyrwyddo banciau bwyd, parhau i ddosbarthu prydau ysgol am ddim yn ystod gwyliau'r ysgol)					
	Cymorth treth y cyngor i drigolion a gafodd anhawster o ran talu eu treth y cyngor o ganlyniad uniongyrchol i'r pandemig h.y. cynllun gohirio neu leihau treth y cyngor.					
	Dysgu ar-lein a dysgu cyfunol gan ysgolion					
	Cynyddu cyfleoedd i bobl fod yn **ffit yn gorfforol ac yn feddyliol**					
	Arall, nodwch fanylion:					

15	Pa 3 gwasanaeth a ddarperir gan y Cyngor sydd bwysicaf i chi/i'ch aelwyd? Nodwch y 3 pwysicaf.				
1		2		3	

Cymorth i Fusnesau

Bu cymorth ddigynsail ar gael i'r gymuned fusnes leol yn ystod y cyfnod hwn a chynnydd sylweddol yn nifer y busnesau sy'n ymgysylltu â'r Cyngor i gael cyngor a chymorth ychwanegol. Bydd cymorth i fusnesau lleol a'r economi yn flaenoriaeth ar gyfer y dyfodol.

16	Bydd cymorth i fusnesau lleol a'r economi yn flaenoriaeth ar gyfer y dyfodol. Yn eich barn chi, beth yw'r ffactorau pwysicaf y dylai'r Cyngor ganolbwyntio arnyn nhw?	Pwysig iawn	Pwysig	Ddim yn bwysig	Ddim yn bwysig o gwbl	Ddim yn gwybod
	Cymorth i fusnesau lleol o ran cymorth grant a pharatoi ar gyfer pan fydd cyfyngiadau'r cyfnod cloi wedi'u lleddfu					
	Hyrwyddo canol trefi fel lle i ymweld â nhw					
	Cefnogi gweithgareddau a gwasanaethau'r economi ymwelwyr yn ein hardaloedd atyniadau i dwristiaid					
	Cynaliadwyedd lleoliadau diwylliant a hamdden – tafarndai a chlybiau a bwytai					
	Creu cyfleoedd ar gyfer creu swyddi					
	Cymorth i ddechrau busnesau					
	Arall, nodwch:					

Gweithio'n Well gyda Chymunedau

Mae amddiffyn y bobl sydd fwyaf agored i niwed yn ein cymunedau yn golygu gweithio'n agos gyda thrigolion lleol a gyda phartneriaid o'r sector gwirfoddol. Ar hyn o bryd mae'r Cyngor yn datblygu menter o'r enw 'Gofalu am Gaerffili' sy'n anelu at ddatblygu dull cydgysylltiedig o ddeall gwahanol anghenion unigolion sydd mewn perygl neu sy'n dioddef o anfantais. Mae gan ein cymunedau ran bwysig i'w chwarae yn hyn.

17 **Ydych chi'n gwirfoddoli ar hyn o bryd?** Ydw ☐ Nac Ydw ☐

18 **Rhestrir isod nifer o ffyrdd y gallech chi gyfrannu at les eich cymuned. Nodwch a ydych chi'n ymwneud ag unrhyw un o'r canlynol, neu os hoffech chi gymryd rhan ynddyn nhw:**

	Rydw i eisoes yn cymryd rhan	Byddwn i'n hoffi cymryd rhan	Does dim modd i mi gymryd rhan	Dim diddordeb
Gwirfoddoli yn y gymuned (casglu sbwriel, prosiectau amgylcheddol ac ati)				
Gweithredu fel llywodraethwr ysgol				
Cymryd rhan mewn pwyllgorau canolfannau cymunedol				
Dysgu rhagor am sut i gynyddu eich lles chi'ch hun a lles eich cymuned				
Dysgu rhagor am sut i leihau eich ôl troed carbon				
Cynorthwyo pobl sy'n agored i niwed drwy ddod yn ofalydd				
Cynorthwyo pobl sy'n agored i niwed drwy grŵp cymorth				
Cynnig prentisiaethau neu gyfleoedd profiad gwaith fel perchennog busnes				
Gwella diogelwch yn y gymuned fel rhan o gynllun cymdogaeth leol				
Mewn rhyw ffordd arall, nodwch:				

19 **Pe bai'r Cyngor yn sicrhau bod cyllideb gymunedol ar gael er mwyn galluogi trigolion i wneud rhagor o bethau drostyn nhw eu hunain yn y dyfodol, beth yw eich barn?**

Rwy'n meddwl ei fod yn syniad da ☐ Rwy'n meddwl ei fod yn syniad gwael ☐ Ddim yn gwybod ☐

Os ydych chi'n meddwl ei fod yn syniad da, pa fathau o weithgareddau/prosiect fyddai'n elwa o gyllideb gymunedol, yn eich barn chi?

20 **A ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno gyda chynnig cymhellion i gymunedau i'w hannog i ymfalchïo yn eu hardal leol?**

Cytuno'n gryf ☐ Cytuno ☐ Anghytuno ☐ Anghytuno'n gryf ☐ Ddim yn gwybod ☐

Trawsnewid Gwasanaethau'r Cyngor

Oherwydd cau adeiladau'r Cyngor yn ystod y pandemig, daeth gwasanaethau wyneb yn wyneb i ben.

Roedd hyn yn cynnwys cynnig gwasanaethau o bellter (ar-lein neu dros y ffôn) lle bynnag y bo modd. Gan fod adeiladau'r Cyngor ar gau/yn gweithredu ar gapasiti wyneb yn wyneb cyfyngedig o hyd, rydyn ni am wybod sut yr ydych chi wedi addasu i gael mynediad at wasanaethau'r cyngor mewn ffordd wahanol.

21 **Oes gennych chi ddyfais i gael mynediad i'r rhyngrwyd? Ticiwch bob un sy'n berthnasol ✔**

OES - ffôn clyfar		**NAC OES** - ond rwy'n defnyddio cyfrifiadur yn y llyfrgell leol	
OES - cyfrifiadur/gliniadur		**NAC OES** - alla i ddim/dydw i ddim eisiau cael mynediad i'r rhyngrwyd	
OES - llechen		**ARALL** - nodwch yma	

22 **A oes gennych fynediad fforddiadwy i'r rhyngrwyd? Ticiwch bob un sy'n berthnasol ✔**

OES - Gartref ☐ OES - Rhywle arall ☐ NAC OES ☐

23 **Pa mor aml wnaethoch chi ymweld â swyddfeydd/adeiladau'r Cyngor, i dalu biliau a chael mynediad at wasanaethau, cyn COVID-19?**

Dyddiol ☐ 2-3 gwaith yr wythnos ☐ Yn wythnosol ☐ Bob pythefnos ☐ Yn llai aml ☐

24 **A oes angen wedi bod arnoch chi i gysylltu â'r Cyngor i dalu biliau rheolaidd, neu gael mynediad at wasanaethau, ers i adeiladau'r Cyngor gau i'r cyhoedd ym mis Mawrth?** OES ☐ NAC OES ☐

25 **Os oes, pa wasanaethau wnaethoch chi gysylltu â'r Cyngor yn eu cylch? Ticiwch bob un sy'n berthnasol ✔**

Budd-daliadau a chymorth		Cyngor cysylltiedig â COVID-19		Registrars	
Bathodynnau glas		Dosbarthu prydau ysgol am ddim		Agor/cofrestru yn yr ysgol	
Cymorth/grantiau busnes		Priffyrdd / Goleuadau stryd		Gofal cymdeithasol	
Gofal plant i weithwyr allweddol		Cymorth Tai / Digartrefedd		Gwasanaethau Chwaraeon a Hamdden	
Cwynion		Talu biliau rheolaidd		Trading Standards	
Treth y cyngor		Ailgylchu a gwastraff		**Arall** (nodwch yma)	

26 **Os oedd angen i chi gysylltu â'r Cyngor, sut y gwnaethoch gysylltu â ni/ddefnyddio ein gwasanaethau? Ticiwch bob un sy'n berthnasol ✔**

Dros y Ffôn		Neges Destun (SMS)		Ebost		Facebook		Twitter		Llythyr	
Gwefan		Cymorth Sgyrsfot		Minicom		Ap Dull Byw Hamdden		**Arall** (nodwch yma)			

27 **Yn ystod pandemig COVID-19, dydyn ni ddim wedi gallu derbyn taliadau arian parod. Rydyn ni wedi helpu pobl i newid tuag at dalu eu biliau trwy ddull wahanol ac rydyn ni'n annog pobl i barhau i wneud hynny. A ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r dull hwn?**

Cytuno'n gryf ☐ Cytuno ☐ Anghytuno ☐ Anghytuno'n gryf ☐ Ddim yn gwybod ☐

Rhowch resymau dros eich ymateb:

28 **Pa mor hawdd neu anodd ydy e wedi bod i chi gyrchu gwasanaethau'r Cyngor tra bod swyddfeydd wedi cau yn ystod y cyfnod cloi?**

Hawdd iawn ☐ Eithaf hawdd ☐ Eithaf anodd ☐ Anodd iawn ☐ Ddim yn Gwybod / Ddim yn gymwys ☐

29 **Beth y gallwn ni ei wneud i wella ymhellach y ffordd y gall trigolion gael gafael ar wasanaethau o bell (naill ai dros y ffôn neu ar-lein)?**

30 **Pa wasanaethau'r Cyngor, os o gwbl, ydych chi'n teimlo bod angen i chi cael gafael arnyn nhw ar ffurf wyneb yn wyneb? Dywedwch pam . . .**

Cyllideb y Cyngor a phennu treth y cyngor:

Oherwydd yr amgylchiadau presennol sy'n gysylltiedig â'r pandemig COVID, mae cynghorau ledled y wlad yn annhebygol o gael syniad manwl o'u setliad ariannol ar gyfer y flwyddyn i ddod tan ganol/diwedd mis Rhagfyr. Fodd bynnag, mae rhwymedigaeth gyfreithiol ar gynghorau bob blwyddyn i bennu cyllideb gytbwys, gyda lefelau treth y cyngor yn cael eu pennu.



Mae treth y cyngor yn codi tua £72.8 miliwn y flwyddyn. Mae hyn yn cynrychioli 20.4% o gyfanswm ein cyllideb. Yn 2019/2020 cynyddodd treth y cyngor ym Mwrdeistref Sirol Caerffili gan 4.7%.

31 **Dewiswch un o'r opsiynau canlynol i ddweud wrthon ni eich dewis am dreth y cyngor ar gyfer y flwyddyn ariannol sydd i ddod. Dewiswch un yn unig.**

Rwy'n gwerthfawrogi bod gan y Cyngor bwysau ariannol ychwanegol, yn enwedig mewn cysylltiad â COVID-19, a byddwn i'n cefnogi cynnydd pellach o tua 4.7% i dreth y cyngor	
Byddwn i'n cefnogi cynnydd is, ond rwy'n derbyn byddai hyn ond yn helpu i ddiogelu'r gwasanaethau pwysicaf	
Rwy'n cefnogi cynnydd pellach o tua 4.7% i dreth y cyngor ond byddwn i'n barod i dalu swm hyd yn oed yn fwy i ddiogelu gwasanaethau	
Nid wyf yn cefnogi unrhyw gynnydd i dreth y cyngor ac rwy'n deall y byddai hyn yn golygu gostyngiad yn lefel y gwasanaethau a ddarperir (oherwydd bod costau a galw'n codi)	

32 **Os dywedoch chi na fyddech chi'n fodlon cefnogi cynnydd i dreth y cyngor, rhowch fanylion am sut arall, yn eich barn chi, y gallwn ni ymateb i'r heriau ariannol y mae'r Cyngor, fel eraill, yn eu hwynebu ar hyn o bryd.**

Uchelgeisiau Llunio Lle yn dod yn realiti

Mae'r Cyngor yn trawsnewid gwasanaethau fel rhan o'i Strategaeth 'Tîm Caerffili – Yn Well Gyda'n Gilydd', gan edrych ar sut y gallwn ni wneud pethau'n wahanol; blaenoriaethu ein gwasanaethau, archwilio cyfleoedd i ganolbwyntio'n fwy ar gwsmeriaid, darpariaeth ddigidol, gweithio mewn partneriaeth a mabwysiadu dull mwy masnachol.

Mae COVID-19 wedi cynyddu cyflymder a ffurf y newid yn y ffordd rydyn ni'n darparu ein gwasanaethau ac rydyn ni wedi gorfod addasu'n gyflym. Mae'r Cyngor eisoes wedi gwneud cynnydd sylweddol yn ei daith drawsnewid, gyda nifer o feysydd datblygu blaenoriaeth pellach o fewn ei uchelgeisiau llunio lle.

Tai:

Ar hyn o bryd, mae'r Cyngor bron â chwblhau ar ei raglen gwella corfforol, gwerth £261 miliwn, i'w stoc tai drwy gyflawni Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC).

Wrth edrych i'r dyfodol, bydd y Cyngor yn parhau i fuddsoddi yn ei stoc tai bresennol er mwyn darparu tai fforddiadwy o safon sy'n effeithlon o ran ynni yn ogystal â rhaglen bartneriaeth o adeiladu newydd.

33 **Yn eich barn chi, beth yw tai o ansawdd da ym Mwrdeistref Sirol Caerffili? Beth sy'n bwysig i ni ei ystyried?**

Swyddi a'r Economi:

Mae'r Cyngor yn bartner allweddol ym Mhrifddinas-Ranbarth Caerdydd, sy'n cynnwys deg awdurdod lleol. Mae Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo £1.1 biliwn i'r Fargen Ddinesig - sy'n cael ei gefnogi gan £120 miliwn ychwanegol wedi eu neilltuo gan y 10 awdurdod lleol sy'n bartneriaid. Bydd nodau hirdymor y Fargen Ddinesig yn helpu rhoi hwb twf economaidd trwy wella cysylltiadau trafnidiaeth, cynyddu sgiliau, helpu pobl i gael gwaith a rhoi'r cymorth sydd ei angen arnynt i dyfu busnesau.

34 **Yn eich barn chi, beth yw economi gref a ffyniannus?**
Fel un o drigolion Bwrdeistref Sirol Caerffili, beth sy'n bwysig i chi o ran yr economi leol?

35 **Pa syniadau sydd gennych chi ar gyfer denu busnesau ac ymwelwyr newydd i ganol ein trefi a'n strydoedd mawr, yn enwedig wrth ystyried arferion siopa sy'n newid?**

Addysg sy'n addas ar gyfer yr 21ain Ganrif – 'Uchelgeisiau a Rennir':

Nod strategaeth 'Uchelgeisiau a Rennir' y Cyngor yw codi safonau a sicrhau bod dysgwyr yn iach, yn hyderus, yn falch ac yn uchelgeisiol ac yn gallu elwa o gyfleoedd, lleoliadau a phrofiadau addysgol o ansawdd uchel. Mae gennym ni hefyd y Rhaglen fuddsoddi Ysgolion yr 21ain Ganrif, sy'n helpu i drawsnewid ysgolion a lleoliadau eraill i fod yn gyfleusterau addysgol o'r radd flaenaf.

36 **O ran addysg a chyfle addysgol ym Mwrdeistref Sirol Caerffili, beth sydd bwysicaf i chi?**
Nodwch eich rhesymau dros eich ateb.

Yr Amgylchedd/Newid yn yr Hinsawdd:

Mae'r Cyngor wedi datgan argyfwng newid yn yr hinsawdd ac mae wedi ymrwymo i'r targed uchelgeisiol o fod yn garbon niwtral erbyn 2030.

37 **Pa mor bryderus ydych chi am y newid yn yr hinsawdd?**

Yn bryderus iawn ☐ Yn weddol bryderus ☐ Ddim yn rhy bryderus ☐ Ddim yn bryderus o gwbl ☐ Ddim yn gwybod ☐

38 **Beth allech chi ei wneud i helpu'r Cyngor a phartneriaid eraill i leihau effaith newid yn yr hinsawdd dros y blynyddoedd nesaf?**

39 **A oes gennych unrhyw syniadau ar sut y gallen ni ddarparu gwasanaethau'n wahanol yn y dyfodol a sut y gallen ni weithio gyda chi a'ch cymuned i wneud hyn?**

40 **Nodwch fanylion isod os yw eich profiad o dderbyn gwasanaethau yn ystod y pandemig COVID-19 NEU eich barn ar flaenoriaethau'r Cyngor ar gyfer gwasanaethau yn y dyfodol wedi cael ei ddylanwadu (yn gadarnhaol neu'n negyddol) oherwydd unrhyw un o'r canlynol; eich tarddiad ethnig, rhyw, oedran, statws priodasol, cyfeiriadedd rhywiol, anabledd, credoau crefyddol neu ddiffyg credoau, defnydd o'r Gymraeg, laith Arwyddion Prydain neu ieithoedd eraill, eich cenedligrwydd neu gyfrifoldeb am unrhyw ddibynyddion. Nodwch fanylion isod:**

Ychydig amdanoch chi…

MAE'R CWESTIYNAU HYN YN DDEWISOL: Bydd eich ymateb yn ein helpu i sicrhau ein bod yn cyflawni sampl gynrychioliadol ac yn ein helpu i weld a yw'r gwasanaethau a ddarparwn yn diwallu anghenion ein holl gymunedau lleol.

Rwy'n cwblhau'r arolwg hwn . . .

- ☐ Fel trigolyn Bwrdeistref Sirol
- ☐ Fel cynrychiolydd mudiad gwirfoddol
- ☐ Fel person busnes
- ☐ Fel aelod etholedig
- ☐ Arall - nodwch: _____

Amdanaf i . . .

- ☐ Gwrywaidd
- ☐ Benywaidd
- ☐ Mae'n well gen i beidio â dweud
- ☐ Arall - nodwch: _____

Beth yw eich prif iaith

- ☐ Saesneg
- ☐ Cymraeg
- ☐ Mae'n well gen i beidio â dweud
- ☐ Arall (gan gynnwys laith Arwyddion Prydain), nodwch: _____

A ydych chi neu aelod o'ch cartref yn gwasanaethu yn y lluoedd arfog ar hyn o bryd neu'n ymadawr y lluoedd arfog?

- ☐ Rydw i'n / roeddwn i'n aelod o'r lluoedd arfog
- ☐ Mae / roedd aelod o'm cartref yn aelod o'r lluoedd arfog
- ☐ Nac ydw / Nac ydyn
- ☐ Mae'n well gen i beidio â dweud

Oes gennych chi anabledd?

- ☐ Oes
- ☐ Nac oes
- ☐ Mae'n well gen i beidio â dweud

Oed:

Fy nghôd post yw:

Oes diddordeb gennych chi mewn ychwanegu eich manylion i restr o wirfoddolwyr?

- ☐ Oes
- ☐ Nac oes

Hoffech chi gymryd rhan yn y Raffl Fawr?

- ☐ Hoffwn
- ☐ Na hoffwn

Os ydych chi wedi ateb OES neu HOFFWN i'r uchod, nodwch eich enw a'ch manylion cyswllt isod. Bydd eich barn yn yr holiadur yma'n cael ei chadw ar wahân i'ch manylion cyswllt.

Enw: _____ E-bost: _____

Cyfeiriad: _____

Côd post: _____ Ffôn: _____

Diolch yn fawr am gwblhau'r arolwg hwn. Dychwelwch eich ffurflen wedi'i llenwi ac unrhyw sylwadau ychwanegol yn y post at: Swyddog Ymgynghori ac Ymgysylltu â'r Cyhoedd, Uned Polisi Corfforaethol, Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, Tŷ Penallta, Parc Tredomen, Ystrad Mynach, Hengoed, CF82 7PG.

Hysbysiad Preifatrwydd: *Mae gennych nifer o hawliau mewn perthynas â'r wybodaeth, gan gynnwys yr hawl i gael mynediad at wybodaeth sydd gennym amdanoch chi a'r hawl i gwyno os ydych yn anfodlon gyda'r modd y mae eich gwybodaeth yn cael ei phrosesu.*
Am ragor o wybodaeth am sut rydym yn prosesu'ch gwybodaeth a'ch hawliau, cliciwch yma: www.caerphilly.gov.uk/CaerphillyDocs/FOI/PrivacyNotices/Privacy-Notice-Consultations-Surveys-cy.aspx